Bute Energy
Cymuned

# Cofnodion cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol Parc Ynni Esgair Galed

## Nos Fercher 20 Mai 2026

### Presenoldeb

**Yn bresennol**

- Maya Bimson – (MB) – Amddiffyn Glaslyn a Hafren
- Sarah Hackshall (SH) – Cynrychiolydd y diwydiant twristiaeth yn lleol
- Endaf Meddins (EM) – Cynrychiolydd tirfeddianwyr
- Y Cynghorydd Gary Mitchell (GM)
- Phil Stasiw (PS) – Cymdeithas Gymunedol Clywedog
- Sophie Bloomfield – (SB) – Rheolwr Prosiect Cyswllt, Bute Energy
- Huw Rees (HR) – Rheolwr Prosiect, Bute Energy
- Rob Mitchell (RM) – Carney Sweeney (yn rhithiol)
- Sara Powell-Davies (SPD) – Thirty4/7 Communications (yn rhithiol)

**Ymddiheuriadau**

- Richard Ashton (RA) – Cyngor Cymuned Llanbrynmair
- Bryn Jones (BJ) – Cyngor Cymuned Llanbrynmair
- Derek Pugh (DP) – Cyngor Cymuned Trefeglwys

**Absennol (noder bod mudiadau wedi cael cais i beidio anfon mwy nag un cynrychiolydd i bob cyfarfod)**

- Elen Williams (EW) – Cyngor Cymuned Cadfarch / CFfI Bro Ddyfi / Maldwyn
- Carla Evans (CE) – Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn
- Y Cynghorydd Glyn Preston (GP) – Cyngor Powys
- Cydweithfa Gymunedol Llwynygog
- Cyngor Cymuned Glantwymyn
- Cyngor Cymuned Blaenrheidol
- Cyngor Cymuned Llanidloes Allanol
- Cyngor Cymuned Llangurig
- Cyngor Cymuned Carno

Bute Energy Cymuned

## Trosolwg o’r agenda

1. Croeso a chyflwyniadau
2. Ymddiheuriadau
3. Bwrw golwg ar aelodaeth y grŵp
4. Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf:
   - Nodi cynrychiolydd newydd ar gyfer Cymdeithas Gymunedol Clywedog
   - HR / SB – Dilyn i fyny efo PAVO
   - HR – Diweddariad ynni cymunedol
   - HR – Diweddariad ar amseriad y prosiect
   - HR – Diweddariad ar oleuadau ar gyfer awyrennau
   - EW – Manylion diogelwch ffyrdd
   - HR / SB – Diweddariadau ar gymorth diogelwch ffyrdd
5. Diweddariad ar Brosiect Parc Ynni Esgair Galed
6. Cyflwyniad i broses gynllunio newydd Cymru – Cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith
7. Diweddariad ar Sefydliad Elusennol Corfforedig ac Ymddiriedolwyr
8. Unrhyw fater arall
9. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf

## Trafodaethau a nodiadau

### 1. Croeso a Chyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Dechreuodd y cyfarfod efo cyflwyniadau ac eglurodd HR bwrpas y cyfarfodydd a bod y Cylch Gorchwyl ar gael ar dudalen we Esgair Galed o dan y tab Ymgysylltiad Lleol – https://bute.energy/esgair-galed/overview/ymgysylltiad-lleol-esgair-galed/?lang=cy

Ailadroddodd HR mai'r grŵp ddylai benderfynu beth fydd yn digwydd a bod Bute Energy yn bresennol i hwyluso.

Nodir presenoldeb ac ymddiheuriadau uchod.

### 2. Bwrw golwg ar aelodaeth y grŵp

Bwriodd y grŵp olwg ar aelodaeth fel eitem sefydlog a chadarnhawyd bod y gynrychiolaeth bresennol yn dal i fod yn briodol ar y cyfan.

Nodwyd bod Elwyn Vaughan bellach wedi ei ethol yn Aelod o'r Senedd dros etholaeth Gwynedd Maldwyn. Nododd yr aelodau y dylai'r gwahoddiad ar gyfer cynrychiolydd etholedig ward Glantwymyn barhau yn dilyn yr etholiad sydd i ddod.

Cafwyd trafodaeth am ehangu cynrychiolaeth i gynnwys pobl iau o'r ardal leol. Awgrymodd yr aelodau y dylid archwilio cynrychiolaeth ar gyfer demograffeg iau, o bosib yn yr ystod oedran 16-25, ac awgrymwyd y gallai meddwl am gymryd rhan deimlo'n llai brawychus petai mwy nag un cynrychiolydd.

Cytunodd yr aelodau y bydden nhw'n myfyrio ymhellach ar hyn cyn y cyfarfod nesaf ac yn dod yn ôl efo awgrymiadau ar y ffordd orau o fynd ati i recriwtio.

**Camau gweithredu**

- PAWB i ystyried ffyrdd o ychwanegu dau gynrychiolydd ieuenctid i gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Cymunedol yn y dyfodol a chyflwyno unrhyw awgrymiadau yn y cyfarfod nesaf.

### 3. Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf

Bwriodd y grŵp olwg ar y camau gweithredu oedd heb eu cymryd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Grŵp Cyswllt Cymunedol.

- **Cynrychiolaeth o Gymdeithas Gymunedol Clywedog**
  Croesawyd PS fel cynrychiolydd newydd Cymdeithas Gymunedol Clywedog. Eglurodd PS ei bod yn annhebygol y byddai'n bresennol ym mhob cyfarfod i gynrychioli'r grŵp.

Pwysleisiwyd y ffaith y gall unrhyw aelod o Gymdeithas Gymunedol Clywedog ddod yn ei le.

- **Dilyn i fyny efo PAVO**
  Rhoddwyd diweddariad ar waith dilyn i fyny efo Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys ynghylch 'mannau gwan' ffonau symudol yn y canolbarth. Mae James Green (Bute Energy) wedi gofyn am ragor o wybodaeth a bydd yn ei rhannu pan ddaw.

  Efallai y bydd gwybodaeth leol ychwanegol ar gael drwy waith mapio tonnau digidol y cyngor sydd ar gael i'r cyhoedd, yn amodol ar gadarnhad ei bod yn iawn ei rhannu.

- **Diweddariad Ynni Cymunedol**
  Amlinellodd HR gynnig Bute Energy i ddyrannu 25% o bob cronfa budd cymunedol flynyddol i brosiectau ynni cymunedol. Gallai hyn gynnwys cynlluniau hydro, solar, batri neu dyrbin ar raddfa fach efo'r bwriad o ddarparu budd lleol ac o bosib lleihau biliau drwy asedau sy'n eiddo i'r gymuned. Dydy gwaith dichonoldeb ar gyfer cynlluniau posib Esgair Galed ddim wedi dechrau eto, er bod yr ymagwedd wrthi'n cael ei datblygu ar brosiectau eraill gan Bute Energy sydd ymhellach ymlaen yn eu cylch datblygu.

  Trafodwyd enghreifftiau lleol fel Clwb Ynni Lleol Llanidloes a'r Cylch.

  Rhoddodd yr aelodau groeso i'r ymagwedd gyffredinol gan dynnu sylw at bwysigrwydd mynediad teg, perchnogaeth gymunedol a manteisio ar brofiad lleol a chyngor arbenigol.

- **Goleuadau ar gyfer awyrennau**
  Dosbarthwyd ymateb ysgrifenedig ar oleuadau ar gyfer awyrennau efo cofnodion y cyfarfod diwethaf. Nodwyd nad oes modd cadarnhau'r strategaeth goleuadau derfynol eto tan fod cynllun terfynol y tyrbin wedi'i gytuno a bod ymgynghorwyr awyrenneg arbenigol wedi'u hasesu.

- **Diogelwch ffyrdd ar y ffordd fynydd**
  Aeth y grŵp yn ôl at y pryderon am ddiogelwch yn ystod y gaeaf ar y ffordd fynydd. Mae cyngor a ddaeth i law gan ymgynghorwyr cyfreithiol a thrafnidiaeth Bute Energy wedi dangos nad oes llawer o sgôp ar gyfer ymyrryd, ond nodwyd bod hyn yn dal i fod yn bryder sylweddol yn lleol.

  Trafododd yr aelodau a allai systemau rhybuddio gwell, yn enwedig arwyddion digidol ynghylch amodau ffyrdd neu dymheredd, fod yn fwy effeithiol nag arwyddion

statig, gan fod y rhan fwyaf o bethau sy'n mynd o chwith yn ymwneud â gyrwyr nad ydyn nhw'n lleol sy'n dibynnu ar lywio lloeren.

Cytunwyd y dylid dosbarthu ymatebion yr ymgynghorwyr cyfreithiol a thrafnidiaeth i'r grŵp, ac y dylai gwaith pellach archwilio dichonoldeb arwyddion rhybuddio gwell, lleoliadau gosod posib ar dir ger y llwybr, ac a fyddai modd nodi tirfeddianwyr addas ar ochr Aberhosan.

**Camau gweithredu**

- Bute Energy i rannu gwybodaeth a ddaeth i law gan PAVO
    - HR: Anfon e-bost at GM i ddilyn i fyny ar wybodaeth gwaith mapio tonnau digidol y Cyngor.
    - SB: Dosbarthu ymatebion yr ymgynghorwyr cyfreithiol a thrafnidiaeth i'r grŵp
    - EM: Anfon manylion unrhyw dirfeddianwyr addas ar ochr Aberhosan o'r ffordd fynydd a allai fod yn fodlon gosod arwyddion at Bute Energy.

## 4. Diweddariad ar Brosiect Parc Ynni Esgair Galed

Disgwylir bellach y bydd Esgair Galed yn bwrw ymlaen o dan y gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith (IC) newydd yn hytrach na'r broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) flaenorol. Mae'r newid yma, ynghyd ag oedi yn gysylltiedig â mynediad at arolygon ac esblygiad y broses ddylunio, wedi ymestyn y rhaglen.

Yr amserlen ddangosol sy'n cael ei rhannu ar hyn o bryd ydy:

- Gwanwyn 2027 – rownd nesaf o ymgynghori statudol
- Hydref 2027 – cyflwyno cais
- Dechrau 2029 – dyddiad penderfynu'r cais, yn amodol ar y broses
- 12 – 18 mis ar ôl cydsyniad: cyflawni amodau a phenderfyniad buddsoddi terfynol

Ailadroddwyd y ffaith bod y prosiect yn dal i fod mewn cyfnod cymharol gynnar. Mae gwaith arolygu yn parhau, yn enwedig yn ystod y tymor presennol o waith ecolegol ac adaregol, ac mae cynllun y safle a'r trefniadau mynediad yn dal i gael eu mireinio.

Bydd y dyluniad a ddangoswyd yn ymgynghoriad 2024 yn newid cyn yr ymgynghoriad nesaf.

Cododd yr aelodau bryderon ynghylch ansicrwydd hirach i drigolion, gan gynnwys effeithiau posib ar werthu eiddo, a gofynnwyd a allai hyn effeithio ar chwiliadau a thrafodion. Cytunodd HR i fynd â'r pwynt yma'n ôl i gael eglurder.

**Camau gweithredu**

- Bute Energy i gael eglurder o ran a oes angen cyhoeddi bodolaeth y prosiect arfaethedig mewn chwiliadau sy'n gysylltiedig â phrynu eiddo

## 5. Cyflwyniad i broses gynllunio newydd Cymru – Cyfundrefn Cydsyniad Seilwaith

Rhoddodd Rob Mitchell drosolwg o drefn Cydsyniad Seilwaith newydd Cymru.

Mae'r grŵp yn clywed bod y broses yn dal i fod wedi'i strwythuro'n fras o gwmpas camau cyn-ymgeisio, cyflwyno / archwilio a phenderfynu, ond mae'n cynnwys gofynion cryfach o ran ymgynghori, cyhoeddi gwybodaeth a rhoi diweddariadau ar brosiectau.

Dyma'r pwyntiau allweddol a nodwyd:

- Mae cyfnod ymgynghori cyn ymgeisio o 42 diwrnod o leiaf yn dal i fod ar waith;
- Bydd angen o leiaf un digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus lleol;
- Rhaid i adroddiad ymgynghori gyd-fynd â'r cais a dangos sut mae ymatebion wedi cael eu hystyried;
- Gall cynghorau cymuned bellach gyflwyno eu hadroddiadau effaith leol gwirfoddol eu hunain ochr yn ochr ag adroddiad yr awdurdod lleol; ac
- Efallai y bydd mwy o gyfle i gymunedau ofyn am wrandawiadau fel rhan o'r broses archwilio.

Roedd yr aelodau'n cwestiynu a ydy'r broses newydd yn gwella dylanwad y gymuned mewn gwirionedd, yn enwedig o ystyried yr amserlenni cyfyngedig a'r capasiti lleol i baratoi tystiolaeth fanwl.

**Camau gweithredu**

- Bute i rannu sleidiau cyflwyniad Rob efo'r grŵp

## 6. Diweddariad ar Sefydliad Elusennol Corfforedig ac Ymddiriedolwyr

Rhoddwyd diweddariad ar y Sefydliad Elusennol Corfforedig (CIO) sydd wedi'i sefydlu i oruchwylio cyllid budd cymunedol ar draws prosiectau Bute Energy. Mae pedwar ymddiriedolwr wedi cael eu recriwtio a'u cyhoeddi erbyn hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Ar gyfer pob prosiect, gan gynnwys Esgair Galed, bydd panel lleol yn cael ei sefydlu yn nes at y pwynt o roi cyllid ar waith. Y panel lleol yma fydd yn gwneud argymhellion ar grantiau, efo penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud gan ymddiriedolwyr y CIO.

Disgwylir i'r grantiau cyntaf, a fydd ar gyfer Parc Ynni Twyn Hywel yng Nghaerffili, gael eu dosbarthu o fis Medi 2026 ymlaen, a fydd yn darparu gwersi defnyddiol ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

## 7. Unrhyw fater arall

**Trafnidiaeth a chysylltiad â'r grid**

Codwyd cwestiynau pellach ynghylch llwybrau mynediad, effeithiau trafnidiaeth, cysylltiad â’r grid a’r goblygiadau i fusnesau twristiaeth lleol.

Nododd HR y disgwylir i wybodaeth drafnidiaeth fanwl fod yn rhan o'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio, sydd wedi'i drefnu ar gyfer Gwanwyn 2027 ar hyn o bryd, yn hytrach na chael ei chyhoeddi ymlaen llaw. Fodd bynnag, os oes angen estyniad i ffin y prosiect, efallai y bydd angen rhagor o ddogfennau cwmpasu – os felly, bydd gwybodaeth o’r dogfennau cwmpasu ychwanegol ar gael i’r cyhoedd ac fe allai roi arwydd cynharach o’r ardaloedd sy’n cael eu hystyried.

Mynegodd yr aelodau bryder y gallai fod gan gymunedau rhy ychydig o amser i ymateb ar ôl i gynigion trafnidiaeth manwl gael eu cyhoeddi. Codwyd pryderon pellach ynghylch amseriad a sicrwydd y prosiect cysylltiedig o ran y cysylltiad â'r grid, ac fe gadarnhaodd HR na fyddai'r un penderfyniad buddsoddi terfynol yn cael ei wneud ar gyfer y datblygiad gwynt ar y tir, sy'n golygu na fyddai'r gwaith adeiladu yn dechrau, oni bai bod y cysylltiad gofynnol â'r grid wedi cael y cydsyniad cynllunio angenrheidiol hefyd.

Codwyd cwestiynau hefyd a fyddai busnesau y gallai llwybrau mynediad adeiladu effeithio arnynt yn cael ystyriaeth o ran asesu gweledol a sŵn. Cadarnhaodd HR y byddai hyn yn dibynnu ar y llwybr terfynol a ddewisir a chwmpas yr asesiad yn y pen draw.

## 8. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf

### Cyfarfod nesaf

**Dyddiad:** nos Fercher 16 Medi 2026

**Amser:** 18.30

**Lleoliad:** Neuadd Gymunedol Penffordd-las, Penffordd-las, SY19 7BU

## Crynodeb o'r camau gweithredu

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Erbyn |
|---|---|---|
| Ystyried ffyrdd o ychwanegu dau gynrychiolydd ieuenctid i gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Cymunedol yn y dyfodol a chyflwyno unrhyw awgrymiadau yn y cyfarfod nesaf. | Aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol | 16 Medi 2026 |
| Bute Energy i rannu gwybodaeth a ddaeth i law gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys | Bute Energy | Unwaith y bydd ar gael |
| Anfon e-bost at GM i ddilyn i fyny ar wybodaeth gwaith mapio tonnau digidol y Cyngor. | HR | 28 Mehefin 2026 |
| Dosbarthu ymatebion yr ymgynghorwyr cyfreithiol a thrafnidiaeth i'r grŵp | Bute Energy | 28 Mehefin 2026 |
| Anfon manylion unrhyw dirfeddianwyr addas ar ochr Aberhosan o'r ffordd fynydd a allai fod yn fodlon gosod arwyddion at Bute Energy. | EM | 28 Mehefin 2026 |
| Cael eglurder o ran a oes angen cyhoeddi bodolaeth y prosiect arfaethedig mewn chwiliadau sy'n gysylltiedig â phrynu eiddo | Bute Energy | 16 Medi 2026 |
| Rhannu sleidiau cyflwyniad Rob efo'r grŵp | Bute Energy | 28 Mehefin 2026 |
| Diweddaru gwybodaeth y rhaglen ar y wefan | Bute Energy | Unwaith y bydd wedi'i gadarnhau |
| Cael Eglurder ar Adroddiad Effaith Lleol | Bute Energy / Tîm Cynllunio | 16 Medi 2026 |

| **Cam Gweithredu** | **Arweinydd** | **Erbyn** |
|---|---|---|
| Parhau â diweddariadau ynni cymunedol | Bute Energy | Parhaus |
| Cyfleu diweddariadau am raglen y grid | Bute Energy | Parhaus |